

Adroddiad yr Ymgynghoriad

Canllaw Cynllunio Atodol (amrywiol gweler y tabl isod)

i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd Medi 2010

Cymeradwywyd y Canllaw Cynllunio Atodol drafft canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 30^{ain} Mawrth 2011.

Ynni Adnewyddadwy
Cynigion Ardal Gadwraeth - amrywiol ¹
Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Pwysig
Cynlluniau Ffrynt Siopau

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 20^{fed} Ebrill 2011 a daeth i ben ar 15^{fed} Gorffennaf 2011 am 5pm.

Anfonwyd 1,800 o lythyron at ymgynghoreion ar gronfa ddata y Cynllun Datblygu Lleol, ac ymgynghoriad trwy ebost i'r rheiny fynegodd fod yn well ganddynt hynny. Hysbyswyd yr ymgynghoreion y gellid sicrhau fod CD yn cynnwys y dogfennau ymgynghorol ar gael yn rhad ac am ddim ac roedd y dogfennau ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Awdurdod. Sicrhawyd fod copiau papur o'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gael am bris bychan pan wneir cais.

Darparwyd llythyron a CD o'r dogfennau ymgynghorol i lyfrgelleodd o fewn Sir Benfro a hefyd yn San Cler ac Aberteifi fel a ganlyn

Aberteifi	Penfro	Tyddewi	Trefdraeth
Crymoch	Hwlfordd	Saundersfoot	Neyland
Abergwaun	Aberdaugleddau	Dinbych y Pysgod	
Arberth	Doc Penfro	San Cler	

Fe'u darparwyd hefyd i ganolfannau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych y Pysgod. Roedd copiau papur o'r dogfennau ar gael i'w gweld yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ym Mharc Llanion, Doc Penfro.

Darparwyd CDs yn cynnwys y dogfennau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned o fewn y Parc Cenedlaethol. Darparwyd y cyfle hefyd i Gynghorau i ofyn am gopi papur am ddim o unrhyw ganllaw os oedden nhw'n gweld y rhain o ddiddordeb arbennig iddyn nhw. Darparwyd amlen rhadbost er mwyn annog hyn. Ar ôl hynny darparwyd unrhyw ddogfennau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned heb unrhyw gost i'r Cynghorau.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiad cyhoeddus yn y Western Telegraph. Ymddangosodd datganiad i'r wasg hefyd yn y Western Telegraph yn rhifyn 20^{fed} Ebrill 2011. Roedd modd rhoi ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad i'r Awdurdod erbyn 5pm ar 15^{fed} Gorffennaf 2011.

Cydnabuwyd pob ymateb, ac maent ar gael i'r cyhoedd - gweler y cyswllt isod. Fe wnaeth cyfanswm o 16 unigolyn a sefydliadau 74 o sylwadau unigol.

Adroddwyd ymatebion y swyddogion i'r ymgynghoriad ar y Canllaw Cynllunio Atodol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 12^{fed} Hydref 2011. Gellir gweld adroddiad o ymatebion y swyddogion i'r ymgynghoriad ar y canllaw cynllunio atodol trwy ddefnyddio'r cyswllt gwefan:

http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/12_10_11/52-11%20Response%20to%20SPG.pdf

¹ Angle, Caerfarchell, Ynys Bŷr, Little Haven, Maenor bŷr, Trefdraeth a Threfdraeth Parrog, Portclew, Porthgain, Saundersfoot, Solfach, Tyddewi, Trefin, Dinbych y Pysgod.

Cytunodd yr Awdurdod i wneud gwelliannau i'r canllawiau yn unol ag argymhellion y Swyddog a welir yn yr Adroddiad. Cefnogodd yr aelodau hefyd gyfarfod arfaethedig rhwng Swyddogion yr Awdurdod hwn a swyddogion Gorfodaeth a Phrifyrdd yn y Cyngor Sir i drafod amllder a chamddefnydd arwyddion o fewn y sir a'r posibilrwydd o gynnig arweiniad ar y mater. Awgrymodd y swyddogion y byddai adolygiad o'r broses ymgysylltu â'r gymuned yn digwydd yng ngolau cyfradd yr ymatebion i ymgynghoriadau diweddar. Fe ychwanegon nhw y bydden nhw hefyd yn darparu manylion o amserlen adolygu Cynigion Ardal Gadwraeth ac fe sicrhau nhw'r Aelodau y bydden nhw'n hysbysu y cymunedau perthnasol o'r broses adolygu Cynigion Ardal Gadwraeth arfaethedig.

Mae'r canllaw wedi'i lwytho i fyny ar y wefan yn
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>.